**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDYFAELOG GYNHALIWYD YN Y NEUADD 15 MAI 2024 AM 7.30YH**

**1. Yn bresennol:** Y Cyng Nicola Jones (Cadeirydd), Philip Davies, Eifion Jones, Meinir James, Elfyn Williams, Jenny Jones, Janet Knott, Carys Thomas, Rheinallt Jones ac Arfon Davies (Clerc).

**Ymddiheuriadau**: Y Cyng Shan Rees a Viv Davies.

**2. Datganiadau Diddordeb**

Dim datganiadau.

**3. Cyfranogiad gan y Cyhoedd**
Nodwyd nad oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol ar yr achlysur hyn.

**4. Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar y 4ydd Ebrill 2024.**

**5. Materion yn Codi**

1. **Prosiect goleuadau yn Ysgol Gyfun Bro Myrddin** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
2. **Cais cynllunio, PL/02147 mewn eiddo yn ardal coetir - Idole i Pentrepoeth –** Nodwyd fod y mater nawr yn cael ei ystyried gan arolygydd. Nodwyd.
3. **Pryderon yn ymwneud â pharcio ar linellau melyn dwbl yn Llandyfaelog –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
4. **FC29/4 Pentrepoeth** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
5. **Materion Gorfodaeth Cynllunio cae yn Idole –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
6. **PL/04973 – Stad Ddiwydiannol Gelligaeros, Idole –** Cafwyd diweddariadau bod ‘cais i galw i mewn’ wedi’i gyflwyno i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â’r cais. Byddai’r dogfen yn cael ei danfon i aelodau. Effaith hyn oedd nad oedd darparu caniatad cynllunio yn bosib yn ystod yr ystyriaeth yma, ond gellid gwrthod y cais. Roedd disgwyl mwy o wybodaeth.
7. **Biniau Sbwriel Cyhoeddus yn y Cymuned –** Roedd y Clerc wedi gofyn am ymgynghoriad gyda'r Cyngor Cymuned ar unrhyw symud pellach o finiau sbwriel.
8. **Grid Cenedlaethol** – **Is-orsaf yn Ardal Llandyfaelog** – Derbyniodd y Cyngor ddiweddariadau pellach ar y mater. Cafwyd cadarnhad y bydd digwyddiad ymgynghori ar y prosiect yn cael ei ystyried ar gyfer Ardal Llandyfaelog. Bydd y Clerc yn gofyn am ollyngiad cyffredinol gan Bwyllgor Safonau’r Cyngor Sir i aelodau drafod a phleidleisio ar y mater hwn.
9. **Materion Llifogydd yng Nghilgadan** – Cadarnhaodd y Clerc fod y gwaith i gychwyn yn fuan.
10. **Materion Llifogydd yn y Cymuned -** Roedd y Clerc wedi derbyn cadarnhad fod yr allfeydd a’r grips wedi eu clirio rhwng Coedlleine / Ystrad Ferthyr. Nodwyd.

11. **Archwiliad Cymru** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
12. **Ymyl Ffordd Tŷ Hir -** Roedd y Clerc wedi derbyn cadarnhad fod y gwaith i osod llawr caled yn y man hwn wedi ei gwblhau. Nodwyd.
13. **Materion diogelwch ffyrdd ym Mancycapel -** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
14. **Gŵyl Flodau Eglwys Llandyfaelog –** Derbyniwyd llythyr o ddiolch oddi wrth Eglwys Llandyfaelog am gyfraniad y Cyngor i'r Ŵyl.
15. **Nododd y Cynghorydd Meinir James ei diddordeb yn y mater hwn - Ymgynghoriad ar y gwaharddiad arfaethedig ar aros ar unrhyw adeg / gwahardd stopio yn Ysgol Gyfun Bro Myrddin –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
16. **Tipio anghyfreithlon yn Sgwar Bryncochbach** – Roedd y Cyngor Sir wedi cadarnhau gan fod y tipio anghyfreithlon ar dir preifat nad oedd yn gallu casglu'r eitemau. Nodwyd.
17. **Arwydd adborth cyflymder yng Nghwmffrwd -** Nodwyd nad oedd yr arwydd yn weithredol o hyd.
18. **Goleuadau troedffordd yn Frondeg** – Codwyd ystyriaeth gan y Cyngor Sir o'r posibilrwydd o gael gwared ar y goleuadau. Roedd y Clerc wedi gofyn am gostau.
19. **Arwydd stopio wedi'i ddifrodi yn Y Lan a'r arwydd 50mya yn Garthowen** – Roedd rhain wedi eu trwsio gan y Cyngor Sir. Nodwyd.

**6. Gohebiaeth**

1. **Un Llais Cymru** – Digwyddiadau hyfforddiant Ebrill, Mai a Mehefin. Nodwyd.
2. **Un Llais Cymru** – Cylchlythyr argyfwng costau byw. Nodwyd.
3. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Hysbysiad o gau ffordd C2057 dros dro rhwng Nonam House a Sgwar Bryncochbach, ddydd Llun 8$^{fed}$ Gorffennaf 2024 am gyfnod o 5 diwrnod. Nodwyd.
4. **Un Llais Cymru** – Gwybodaeth am y cyfnod cyn etholiad. Nodwyd.
5. **Un Llais Cymru** – Gwybodaeth mewn perthynas â thaliadau i Gynghorwyr Tref a Chymuned. Nodwyd.
6. **Un Llais Cymru** – Gwybodaeth ar baratoi a chyhoeddi Adroddiad Blynyddol y Cyngor. Nodwyd.
7. **Un Llais Cymru** – Gwybodaeth am Bwyllgor Ardal Caerfyrddin a gynhaliwyd ar 23$^{ain}$ Ebrill. Derbyniwyd adroddiad o'r cyfarfod gan y Cyng Meinir James.
8. **Llywodraeth Cymru** – Ymgynghoriad: Sicrhau Dyfodol Cynaliadwy: Egwyddorion Amgylcheddol, Llywodraethu a Thargedau Bioamrywiaeth ar gyfer Cymru Werddach. Nodwyd.
9. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Gwahoddiad i Hyfforddiant Cod Ymddygiad i'w gynnal ar 28$^{ain}$ Mehefin 2024. Nodwyd.
10. **Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Sir Gaerfyrddin** – Gwahoddiad i Rali'r CFFI a gynhaliwyd ar yr 11$^{eg}$ o Fai. Derbyniwyd adroddiad ar y digwyddiad gan y Cadeirydd.
11. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Cau ffordd brys yr C2074 ym Mancycapel ar ddydd Gwener 19$^{eg}$ Ebrill 2024 am gyfnod o 1 diwrnod. Nodwyd.
12. **Un Llais Cymru** – Adroddiad Cynhadledd Gwobrau 2024. Nodwyd.
13. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Cau ffordd brys yr C2075 yn Llandyfaelog ar 22$^{ain}$ Ebrill 2024. Nodwyd.

14. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Cadarnhad o daliad 1/3 o Praesept 2024-25 sef £9,106.66. Nodwyd.
15. **Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru** - Cylchgrawn Calon Tân. Nodwyd.
16. **Un Llais Cymru** – Newyddion Diweddaraf. Nodwyd.
17. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Cau ffordd brys yr C2075 Llandyfaelog ddydd Mawrth 30ain Ebrill 2024 rhwng 09:30 a 15:30. Nodwyd.
18. **Cyngor Sir Caerfyrddin** - Canlyniad yr Ymgynghoriad ar Bolisi 4s Cynradd 2025/26. Nodwyd.
19. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Cau ffordd dros dro ar hyd y darn o ffordd a elwir Heol Penyfedw, Llandyfaelog, o'i chyffordd â'r C2074, am bellter o 200 metr i gyfeiriad y de-ddwyrain ar 22ain Mai 2024 o 09:00 i 17:00. Nodwyd.
20. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Cau ffordd dros dro yr U2211 Trelymsi, Llandyfaelog i'w chyffordd gyda ffordd yr U2211 yng Nghwmbury am bellter o 643 metr i gyfeiriad y Gorllewin ddydd Llun 10fed Mehefin 2024 rhwng 09:45 a 15:45
21. **Un Llais Cymru** – Gwahoddiad i fynychu lansiad ar-lein swyddogol adnoddau newydd Un Llais Cymru ar gyfer Bioamrywiaeth. Nodwyd.
22. **Cylchgrawn Clerks and Councils Direct** – Nodwyd.
23. **Cymdeithas yr Iaith** – Gwybodaeth ar fforwm agored ar 'Fentrau Cymunedol Lleol i yrru'r Economi Gymraeg' i'w gynnal ar y 18fed o Fai yn Llyfrgell Caerfyrddin. Nodwyd.
24. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Cais am wybodaeth Cod Ymddygiad. Cadarnhaodd y Clerc darpariaeth y data.

**7. Cae Idole ac Amwynderau'r Cyngor**

1. **Diffibrilwyr**
   - **a)** Cadarnhaodd y Clerc newid padiau Uned Idole gyda chost o £159.00 ynghyd â TAW i Defib Warehouse yn cael ei gymeradwyo.
   - **b)** Cadarnhaodd y Clerc fod yr Unedau yng Nghwmffrwd a Chroesyceiliog wedi eu hadleoli i'r llochesi fws yn y lleoliadau hyn. Cymeradwywyd prynu arwyddion o Medisave gyda chost o £12.27 ynghyd â TAW.
   - **c)** Cadarnhaodd y Clerc y wybodaeth a dderbyniwyd mewn perthynas â'r broses o gael caniatâd i adleoli Uned Glanmorlais i'r Arosfan Bws ynghyd â'r cyfrifoldebau oedd yn llifo o wneud y gwaith yma.

     Yn dilyn ystyriaeth bellach o'r mater cytunwyd i edrych i brynu casyn newydd ar gyfer y diffibriliwr. Nodwyd hefyd nad oedd unedau Pwer Solar ar gael.

**8. Cytundeb yr Atgyweiriwr**

Cadarnhaodd y Clerc 28 awr wedi eu gweithio yn Ebrill gyda chost o £616.00 ynghyd a defnyddiau o £13.50 yn cael eu cytuno. Cytunwyd taliadau torri gwair ar gyfer mis Ebrill ar gost o £308.00 hefyd.

**9. Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol**

Nododd y Clerc fod Cyngor Cymuned Llandyfaelog yn parhau i fodloni gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i fod yn Gyngor cymwys sy'n gallu arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol.

Ystyriodd y Cyngor y materion a cytunwyd yn unfrydol i mabwysiadu penderfyniad yn cadarnhau bod Cyngor Cymuned Llandyfaelog yn parhau i fodloni'r amodau yn unol ag Atodlen 4, Rhan 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ei fod yn gyngor cymuned cymwys sy'n gallu arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol.

**10. Taliadau a Lwfansau Aelodau 2024-25**

Rhoddwyd ystyriaeth i penderfyniadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer y flwyddyn 2024-25 fel a ganlyn.

**Cost Gofal** - Roedd rhaid i'r Cyngor ddarparu ar gyfer ad-dalu costau angenrheidiol ar gyfer gofalu am blant ac oedolion dibynnol (a ddarperir gan ofalwyr anffurfiol neu ffurfiol) ac ar gyfer anghenion cymorth personol.

Byddai hyn yn cael ei ad-dalu yn y cyfarfod ar ôl i hawliad gael ei gyflwyno i'r Clerc. Nodwyd hyn.

**Costau a Threuliau 1 –** Roedd rhaid i'r Cyngor sicrhau bod taliad o £156 y flwyddyn ar gael i bob un o'i aelodau tuag at gostau cartref ychwanegol (gan gynnwys gwres, golau, pŵer a band eang) o weithio gartref.

Bydd hwn yn cael ei dalu yn mis Chwefror bob blwyddyn oni bai bod aelod yn cadarnhau i'r Clerc nad yw'n dymuno hawlio'r cyfan, neu ran ohono. Nodwyd hyn.

**Costau a Threuliau 2** – Roedd rhaid i gynghorau naill ai dalu £52 y flwyddyn i'w haelodau am gost nwyddau traul swyddfa sydd eu hangen i gyflawni eu rôl, neu fel arall rhaid i gynghorau alluogi aelodau i hawlio ad-daliad llawn am gost nwyddau traul eu swydd.

Cytunwyd i ddarparu ar gyfer ad-daliad am gost nwyddau swyddfa. Bydd hwn yn cael ei dalu yn mis Chwefror bob blwyddyn oni bai bod aelod yn cadarnhau i'r Clerc nad yw'n dymuno hawlio'r cyfan, neu ran ohono. Nodwyd hyn.

**Swyddi Uwch** – Gall y Cyngor darparu taliad blynyddol o £500 yr un ar gael i o un ac uchafswm o tri aelod i gydnabod cyfrifoldebau penodol. Mae hyn yn ychwanegol at y taliadau o £156 a £52 ar gyfer costau a threuliau. Cytunwyd i ddarparu'r taliad hwn.

**Teithio** – Gall y Cyngor wneud taliadau i bob un o'i aelodau mewn perthynas â chostau teithio am fynychu dyletswyddau cymeradwyyd. Roedd hyn yn ddewisol. Nodwyd a cytunwyd hyn.

**Aros dros nos** – Gall y Cyngor, os yw dyletswydd yn gofyn am aros dros nos, awdurdodi ad-dalu costau cynhaliaeth i'w aelodau ar y cyfraddau uchaf a gyhoeddwyd. Roedd hyn yn ddewisol.

Byddai hwn yn cael ei ad-dalu yn y cyfarfod dilynol ar ôl i hawliad gael ei gyflwyno i'r Clerc. Nodwyd a chymeradwywyd hyn.

**Colled Ariannol** – Gall y Cyngor dalu iawndal colled ariannol i bob un o'i aelodau, lle bu colled o'r fath, am fynychu dyletswyddau cymeradwy fel y'u cyhoeddwyd.

Byddai hwn yn cael ei ad-dalu yn y cyfarfod dilynol ar ôl i hawliad gael ei gyflwyno i'r Clerc. Nodwyd a chymeradwywyd hyn.

**Lwfans Presenoldeb** – Gall y Cyngor dalu lwfans presenoldeb i aelodau. Yr uchafswm gorfodol ar gyfer pob digwyddiad cymwys oedd £30 ac ni fydd gan aelod sy'n derbyn iawndal colled ariannol hawl i hawlio lwfans presenoldeb ar gyfer yr un digwyddiad.

Os bydd y cyngor yn penderfynu o blaid lwfansau presenoldeb, rhaid iddo lunio cynllun i'w fabwysiadu'n ffurfiol a gwneud darpariaeth iddo fod ar gael i'r cyhoedd.

Rhaid i daliadau am bresenoldeb fod mewn perthynas â busnes swyddogol neu ddyletswydd gymeradwy a nodir yn Rheolau Sefydlog y Cyngor neu fel arall drwy benderfyniad penodol. Dylai'r cynllun nodi ar gyfer pa ddigwyddiadau y gwneir taliadau.

Bydd gan bob aelod o'r cyngor hawl i'r taliad am fynychu'r digwyddiadau a nodir yn y cynllun, ond gall aelod unigol wrthod derbyn taliad drwy hysbys'r Clerc (yn ysgrifenedig). Cytunwyd i beidio ddarparu'r lwfans hwn ar gyfer y Cyngor.

**Pennaeth Dinesig** – Roedd y Cyngor yn gallu roi taliad Pennaeth Dinesig i'r Cadeirydd hyd at uchafswm o £1,500. Roedd hyn yn ychwanegol at y taliadau o £156 a £52 ar gyfer costau a threuliau a'r uwch gyflog o £500 os caiff y rhain eu hawlio gan yr aelod hwnnw. Roedd y taliad hwn yn ychwanegol at y gyllideb o £420 a ddyrennir i weithgareddau'r Cadeirydd. Cytunwyd i beidio ddarparu'r lwfans hwn ar gyfer y Cyngor.

**Dirprwy Bennaeth Dinesig** – Gall y Cyngor roi taliad Dirprwy Bennaeth Dinesig i'r Is-Gadeirydd hyd at uchafswm o £500. Mae hyn yn ychwanegol at y taliadau o £156 a £52 ar gyfer costau a threuliau a'r uwch gyflog o £500 os caiff y rhain eu hawlio gan yr aelod hwnnw. Cytunwyd i beidio ddarparu'r lwfans hwn ar gyfer y Cyngor.

**11. Cytundeb Yswiriant 2024-25**

Rhoddwyd ystyriaeth i Bolisi Yswiriant y Cyngor ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2024-25 gyda 3ydd flwyddyn y cytundeb 5 mlynedd wedi ei nodi a'i gymeradwyo ar gost o £625.30.

**12. Digwyddiadau Cymunedol 2024**

Trafododd y Cyngor Ddigwyddiadau Cymunedol posibl yn 2024 fel a ganlyn:

• Cystadleuaeth Gerddi – Llysiau (Mehefin) a Blodau (Awst);
• Cystadleuaeth Bwgan Brain – thema'r Gemau Olympaidd.

Cadarnhaodd y Clerc nad oedd Graham Green yn gallu cyflawni'r Beirniadu. Yn dilyn darparu awgrymiadau eraill, roedd Elin Forsyth wedi cytuno i gyflawni'r rôl. Bydd y Cadeirydd yn cysylltu â'r beirniad i gytuno ar ddyddiadau. Cysylltir â Chlwb Camerau Cydweli i geisio ffotograffydd ar gyfer y gystadleuaeth.

**13. Cyfrifon**
**a) Cytunwyd y taliadau ganlynol:**

1. **Medisave** **£14.72** Arwyddion defib (gweler eitem 7.1.b) £12.27 gyda £2.45 TAW.
2. **Defib Warehouse** **£190.80** Pad ar gyfer defib Idole (gweler eitem 7.1.a) £159.00 gyda TAW £31.80
3. **Zurich Municipal** **£625.30** Polisi yswiriant 2024-25 (gweler eitem 11)

| **4.** | Disgrifiad | Cyflog | Costau | Cyfanswm Gros | Treth wedi tynnu ffwrdd | YG wedi tynnu ffwrdd | Cyflog Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Arfon Davies** | **Cyflog Ebrill a costau** | **£722.43** | **£26.00<br>£7.00<br>£11.70<br>£13.60** | **£780.73** | **£298.60** | | **£482.13** |

5. **Comisiynydd Gwybodaeth** **£40.00** Cofrestri 2024-25
6. **Michael Leefe** **£629.50** Atgyweiriwr Ebrill (gweler eitem 8)
7. **Michael Leefe** **£308.00** Torri Gwair Ebrill (gweler eitem 8)
8. **Sixways Florists** **£42.00** Blodau ar gyfer Cadeirydd y Cyngor yn dilyn llawdriniaeth (£35.00 gyda TAW)
9. **Apel Gerddi Ysbyti Tywysog Phillip** **£50.00** Rhodd cytunwyd yn cyfarfod mis Mawrth 2024
10. **Cyng Shan Rees** **£400.00** Costau Cadeirydd 2023-24

**14. Materion arall a godwyd gan aelodau**

1. Roedd y Clerc wedi adrodd y materion canlynol i'r Cyngor Sir:
   a) Methu casgliad bin Ardal Amwynder Bancycapel;
   b) Angen torri tyfiant clawdd oedd yn rhwystro golygfeydd ar gyffordd Heol y Lan gyda'r A484 ac ym Maescyneiddion ym Mancycapel.
2. Derbyniwyd e-bost gan drigolion yn gofyn am gefnogaeth y Cyngor i wrthwynebu cynigion Bute Energy a National Grid. Bydd y Clerc yn ymateb i'r e-bost yn cadarnhau sefyllfa bresennol y Cyngor.
3. Bydd y Clerc yn cadarnhau os yw'r palmant ger y safle datblygu newydd yng Nghroesyceiliog wedi ei fabwysiadu gan y Cyngor Sir.
4. Llongyfarchwyd Llinos Jones a Caroline Stiles ar gael eu dewis i gynrychioli Cymru mewn Bowlio Mat Byr.

5. Bydd y Clerc yn adrodd twll yn y ffordd ar ben bryn Llandyfaelog ar ochr y palmant.
6. Bydd y Clerc yn chwilio prisiau ar gyfer bariau newydd ar gyfer Cadwyn y Cadeirydd.
7. Llongyfarchwyd Elgan Thomas o CFfI Llanismel ar gael ei ddewis yn Llysgennad y Sir.

**Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor ddydd Iau 6ed Mehefin 2024.**